

PROFIAD MYFYRIWR RHWYDWAITH 75



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Partneriaeth
Cydwasaethau
Shared Services
Partnership

"Rwy'n gweithio yn adran Gaffael Partneriaeth Cydwasaethau'r GIG. Dyma fy mlwyddyn gyntaf yn gweithio ar y cynllun Rhwydwaith 75 ac mae wedi bod yn 12 mis gwych!

Mae fy mlwyddyn gyntaf ar Raglen Rhwydwaith 75 wedi bod yn brosiect mawr ac yn agoriad llygad. Drwy gydol y flwyddyn hon, rwyf wedi bod yn ymwneud â gwaith amrywiol sydd wedi fy helpu i ennill gwybodaeth a phrofiad gwerthfawr.

Ers y diwrnod cyntaf rwyf wedi cael cyfle i ddysgu sut i ddefnyddio meddalwedd sylfaenol a ddefnyddir yng Ngwasanaeth Caffael PCGC, fel 'Oracle'. Yn ddiweddarach cefais ddyrchafiad i fod yn brif ddefnyddiwr 'Multquote', gan gynorthwyo fy rheolwr gyda'i holl brosiectau cyfalaf.

Drwy gydol y flwyddyn hon, rwyf wedi defnyddio fy ngwybodaeth o'r byd academiaidd yn fy lleoliad gwaith. Mae fy rheolwr wedi rhoi llawer o gyfleoedd i mi ddefnyddio ac ehangu fy set sgiliau a ddysgais yn y brifysgol mewn modd ymarferol o fewn yr amgylchedd gwaith.

Fel myfyriwr blwyddyn gyntaf, rwyf wedi ennill llawer o brofiad ac wedi gallu defnyddio fy ngwybodaeth o'r brifysgol a fy lleoliad gwaith i gael blwyddyn lwyddiannus hyd yn hyn. Edrychaf ymlaen at y profiadau sydd gan PCGC i'w cynnig yn y dyfodol dros y 4 blynedd sy'n weddill o fy lleoliad gwaith Rhwydwaith 75."



**Jacob
Murdoch**

**Myfyriwr
Rhwydwaith 75
2022-2027**

**Astudio
Logisteg, y
Gadwyn Gyflenwi
a Chaffael**



Grando a Dysgu



Cymryd Cyfrifoldeb



Gweithio Gyda'n Gilydd



Arloesi

Gwerthoedd craidd PCGC